**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Eluned Morgan**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

5 Medi 2023

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Bydd Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023") yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004").

1.2 Mae Rheoliadau 2023 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer datblygiadau polisi a chyfeiriadau statudol wedi'u diweddaru. Fodd bynnag, y polisi sylfaenol yw Diwygio Contractau, sy'n creu Contract Unedig newydd ar gyfer pob practis ymarferydd cyffredinol yng Nghymru.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023") yn cael eu gwneud yn unol â phwerau Gweinidogion Cymru o dan adrannau 7(8), 41(3), 41(6), 43, 44, 47, 48, 54, 135 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

3.2 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol. Deuant i rym ar 1 Hydref 2023.

### 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Bydd Rheoliadau 2023 yn pennu'r fframwaith ar gyfer contractau gwasanaethau meddygol cyffredinol (GMC) o dan Ran 4: Gwasanaethau Meddygol o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006. Bydd y contractwr GMC yn cynnal contract GMC Unedig cyffredin ("Contract Unedig") gyda Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol y GIG i gleifion, a bydd modd iddynt allu dangos lefelau uchel o safonau a gofal o ansawdd yn erbyn y contract yn hawdd.

4.2 Nod y Contract Unedig yw symleiddio pa wasanaethau y mae pob practis ymarferydd cyffredinol yng Nghymru yn eu darparu fel rhan o'r GIG, a sut y maent yn dangos tystiolaeth o sicrwydd ynghylch cyflenwi gwasanaethau. Mae'r Contract Unedig yn golygu bod y maes ymarfer cyffredinol yn cael ei gysoni â modelau gwasanaeth sy'n datblygu ar gyfer darparu gofal, yn seiliedig ar ethos gofal iechyd darbodus. Ei nod yw ei gwneud yn haws i gleifion a phroffesiynolion gofal iechyd ddeall y cyfrifoldebau dros ddarparu gwasanaethau, lleihau biwrocratiaeth weinyddol, rhyddhau amser ac adnoddau

ar gyfer darparu gwasanaethau, a galluogi defnyddio data a thechnoleg i helpu i gynllunio adnoddau a darparu gwasanaethau.

4.3 Bydd y Contract Unedig yn cynnwys tair rhan: Gwasanaethau Unedig, Gwella Ansawdd a Gwasanaethau Atodol. Nid yw Gwella Ansawdd a Gwasanaethau Atodol yn rhan o Reoliadau 2023 gan eu bod yn ddewisol ar gyfer practisau ymarferwyr cyffredinol.

4.4 Gwasanaethau Unedig fydd yn ffurfio'r rhan fwyaf o'r contract a dyma'r gwasanaethau allweddol y mae rhaid i bob practis ymarferydd cyffredinol eu darparu. Adlewyrchir y gwasanaethau hyn yn Rheoliadau 2023. Wrth symleiddio'r contract, mae'r holl wasanaethau o dan gontract GMC 2004 a gafodd eu dosbarthu'n Wasanaethau Ychwanegol neu'n Wasanaethau Estynedig dan Gyfarwyddyd wedi'u hystyried yn erbyn yr hyn y gellir disgwyl i bob practis ymarferydd cyffredinol ei ddarparu. Mae'r holl Wasanaethau Estynedig wedi'u hadolygu gan roi'r ffocws cychwynnol ar 'yr hyn y gellir disgwyl i bob ymarferydd cyffredinol ei wneud' a'r hyn sy'n fwy arbenigol. Mae'r prawf allweddol hwn wedi ein galluogi i gydgrynhoi a symleiddio'r contract.

4.5 O dan y trefniadau presennol, mae 7 gwasanaeth ychwanegol (a fydd, o dan y Contract Unedig, yn rhan o Wasanaethau Unedig)–

- sgrinio serfigol;
- gwasanaethau atal cenhedlu;
- brechu ac imiwneiddio;
- brechu ac imiwneiddio plant;
- gwyliadwriaeth iechyd plant;
- gwasanaethau meddygol mamolaeth; a
- mân lawdriniaethau ciwretio, serio, rhew-serio dafadennau, ferwcau a briwiau eraill ar y croen.

4.6 Ar hyn o bryd, mae contractwyr GMC yn gallu dewis peidio â darparu gwasanaethau ychwanegol i gleifion, sy'n arwain at ddidynnu canran o'u Swm Craidd. Y Swm Craidd yw'r brif ffynhonnell cyllid i gontractwyr GMC ddarparu gwasanaethau meddygol sylfaenol i gleifion.

4.7 Bydd symud y Gwasanaethau Ychwanegol hyn i Wasanaethau Unedig fel y nodir yn Rheoliadau 2023 yn sicrhau y bydd pob person yng Nghymru yn cael y gwasanaethau hyn ar sail gyfartal.

4.8 Bydd y Gwasanaeth Estynedig dan Gyfarwyddyd presennol ar gyfer Diabetes y mae Byrddau Iechyd Lleol yn ei gomisiynu gan gontractwyr GMC yn symud i Wasanaethau Unedig gan sicrhau bod pob claf diabetig sydd â chlefyd Math 2 yn derbyn gofal i reoli a monitro ei gyflwr gan gontractwyr GMC.

4.9 Bydd y dangosyddion clinigol a oedd yn rhan o'r Fframwaith Sicrhau a Gwella Ansawdd, a oedd yn wirfoddol i gontractwyr GMC gymryd rhan ynddo, hefyd yn symud i'r Gwasanaethau Unedig. Mae hyn yn golygu y bydd

contractwyr GMC yn rheoli rhai o'r cyflyrau cronig mwyaf cyffredin, er enghraifft asthma a diabetes i gleifion sydd â'r cyflyrau hynny.

4.10 Rhan arall o'r Fframwaith Sicrhau a Gwella Ansawdd a fydd yn trosglwyddo i Wasanaethau Unedig yw'r dangosyddion maes clwstwr. Bydd hyn yn gwreiddio'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran datblygu clystyrau, ac yn darparu'r llwyfan ar gyfer datblygiadau pellach. Bydd practisau ymarferwyr cyffredinol yn dangos eu bod yn cymryd rhan mewn cydweithredfeydd proffesiynol drwy rannu gwybodaeth, cymryd rhan yn nhrafodaethau cydweithredfeydd a chefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno atebion lleol. Bydd hyn yn galluogi gwell gofal i gleifion a gwell systemau i helpu'r gweithlu i ymateb i angen ac i ddarparu gofal yn y ffordd fwyaf effeithiol. Bydd Rheoliadau 2023 yn nodi hefyd fod rhaid i gontractwr GMC fod yn aelod o Gydweithredfa Ymarfer Cyffredinol a phenodi o leiaf un unigolyn sy'n broffesiynolyn gofal iechyd i weithredu ar ran y contractwr yn y trafodaethau rhwng y contractwr a'r Gydweithredfa Ymarfer Cyffredinol y mae'r contractwr yn perthyn iddi.

4.11 Roedd elfen o'r Fframwaith Sicrhau a Gwella Ansawdd o 1 Ebrill 2022 ymlaen hefyd yn cynnwys yr Ymrwymiad Mynediad i ddangos yn gliriach i'r cyhoedd beth y gallant ei ddisgwyl gan bractisau ymarferwyr cyffredinol o ran mynediad. Bydd y rhan hon o'r Fframwaith yn symud i'r Gwasanaethau Unedig i ffurfioli'r disgwyliadau a'r gofynion o ran mynediad, ynghyd â thargedau a mesurau cadarn. Mae'r Ymrwymiad Mynediad yn nodi'r gofynion canlynol ar gyfer contractwyr GMC–

- Bod ganddynt system ffonau ac iddi swyddogaeth recordio ar gyfer llinellau sy'n dod i mewn ac yn mynd allan, sy'n gallu pentyrru galwadau ac sy'n caniatáu i ddata galwadau gael ei ddadansoddi.
- Bod ganddynt neges gyflwyno dros y ffôn wedi'i recordio'n ddwyieithog ac nad yw'n para'n hwy na 2 funud.
- Sicrhau bod cleifion a chartrefi gofal yn gallu archebu presgripsiynau rheolaidd drwy ddull digidol.
- Drwy gydol yr oriau craidd, sicrhau bod dull digidol ar waith i gleifion ofyn am apwyntiadau nad ydynt yn rhai brys neu alwad yn ôl, a bod y trefniadau llywodraethu angenrheidiol ar waith ar gyfer y broses hon.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i wybodaeth ynghylch sut y gall cleifion ofyn am ymgynghoriad brys, rheolaidd a phellach, yn ogystal â rhoi cyhoeddusrwydd i wybodaeth i gleifion ynghylch sut i ofyn am ymgynghoriad drwy daflen y practis a gwefan y practis.
- Dangos gwybodaeth am y Safonau Mynediad.
- Cynnig ymgynghoriad yr un diwrnod i blant o dan 16 oed sy'n ymgyflwyno â materion acíwt a chleifion sydd wedi'u brysbennu'n glinigol fel rhai y mae arnynt angen asesiad brys.
- Cynnig apwyntiadau y gellir eu trefnu ymlaen llaw.
- Mynd ati'n weithredol i atgyfeirio cleifion at wasanaethau cydweithredol eraill, gwasanaethau ar draws y bwrdd iechyd a gwasanaethau cenedlaethol.

4.12 Er mwyn gwella mynediad i gleifion ymhellach, mae Rheoliadau 2023 yn

cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr GMC–

- Ateb eu ffonau drwy gydol yr oriau craidd (h.y. 8.00am i 6.30pm) o ddydd Llun i ddydd Gwener oni bai bod cytundeb blaenorol wedi'i roi gan y Bwrdd Iechyd Lleol i ddefnyddio neges ffôn ateb o dan amgylchiadau eithriadol; a

- Sicrhau bod drysau eu prif fangre practis ar agor fel y gall cleifion gael mynediad i'r fangre yn gorfforol rhwng 8.30am a 6.00pm. Bydd hyn hefyd yn atal lleiafrif o bractisau rhag cau am hanner diwrnod.

4.13 Bydd mesurau sicrwydd contractau cryfach a chyfannol, a rheoli a monitro perfformiad drwy Fframwaith Sicrwydd newydd. Un o brif nodau'r Fframwaith Sicrwydd yw lleihau biwrocratiaeth drwy system o wiriadau sy'n gadarn ac yn gymesur.

4.14 Cytunwyd ar set o egwyddorion sicrwydd a fydd yn sail i'r dull gweithredu yn y dyfodol:

- Y broses yn agored a thryloyw
- Gweithredu'n gymesur ac nid yn fiwrocrataidd
- Gwneud defnydd o ffynonellau data presennol
- Dadansoddi data ar lefel genedlaethol a'i ddarparu i bractisau a Byrddau Iechyd
- Defnyddio safonau a mesurau cenedlaethol
- Eu cymhwyso'n gyson ledled Cymru
- Dylai prosesau fod yn ffurfiannol a chefnogol lle bo modd
- Darperir dull o gamau graddol a chlir tuag at uwchgyfeirio os oes pryderon

4.15 Bydd set o ddangosyddion allweddol yn cael eu datblygu a bydd y rhain yn cael eu cymhwyso ym mhob rhan o GIG Cymru, gan gryfhau'r systemau presennol a sefydlu dull gweithredu cyson o ran materion sicrwydd yn y Contract Unedig. Bydd defnydd gwell o ddata presennol o ystod eang o ffynonellau yn golygu bod modd asesu perfformiad practisau mewn ffordd agored a thryloyw.

4.16 Er mwyn sicrhau bod prosesau sicrwydd yn gymesur a hefyd yn ffurfiannol, bydd y Byrddau Iechyd yn blaenoriaethu pa gontractwyr fydd yn cael adolygiad llywodraethu ac yn ystyried pa mor ddwys y mae'r angen i'r adolygu fod er mwyn cael sicrwydd. Sefydlir proses uwchgyfeirio y cytunir arni'n genedlaethol ar gyfer rheoli pryderon.

4.17 Bydd y Fframwaith Sicrwydd y tu allan i Reoliadau 2023 i alluogi'r Fframwaith i gael ei ddiwygio yn ôl yr angen ond bydd darpariaeth yn Rheoliadau 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr ymgysylltu â'r Bwrdd Iechyd Lleol yn y prosesau a amlinellir yn y Fframwaith Sicrwydd cyhoeddedig diweddaraf.

4.18 Bydd Rheoliadau 2023 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer "holiadur cleifion newydd" set ddata genedlaethol gofynnol a fydd yn cael ei ddefnyddio gan bob practis ac yn cael ei gynnig i gleifion sy'n cofrestru â'r practis. Bydd yr holiadur set ddata gofynnol yn sicrhau proses sgrinio ar gyfer cleifion 16 oed neu hŷn:

- sy’n yfed alcohol ar lefel uwch neu lefel risg uwch
- sy’n ddefnyddwyr cynhyrchion tybaco
- sydd â BMI uchel

4.19 Bydd practisau yn parhau â’u dulliau presennol o atgyfeirio cleifion a nodir fel rhai sy’n wynebu risg at gymorth perthnasol lle mae ar gael.

4.20 Bydd cyflwyno’r “holiadur cleifion newydd” set ddata genedlaethol gofynnol ar gyfer pob claf newydd yn sicrhau cysondeb o ran casglu gwybodaeth sgrinio iechyd bwysig.

4.21 Bydd Rheoliadau 2023 hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer gwasanaeth digidol ynghylch rhoi a derbyn presgripsiynau. Ar hyn o bryd, mae ymarferwyr cyffredinol a chlinigwyr gofal sylfaenol eraill yn creu presgripsiynau drwy ddulliau electronig ond rhaid iddynt argraffu a llofnodi copïau caled sy’n cael eu cludo i fferyllfa i’w cyflenwi. Mae’r copïau papur o bresgripsiynau yn cael eu harchifo er mwyn i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru adrodd arnynt. Bydd y rhaglen yn cwblhau’r gwaith o ddigideiddio’r broses hon fel bod presgripsiynau papur a llofnodion ‘gwlyb’ yn cael eu disodli gan bresgripsiynau electronig a llofnodion electronig. Bydd presgripsiynau’n cael eu hanfon yn electronig yn uniongyrchol oddi wrth y rhagnodydd sy’n eu hawdurdodi i’r fferyllfa i’w cyflenwi.

4.22 Yn yr un modd â Rheoliadau 2004, mae Rheoliadau 2023 yn sefydlu cydrannau’r Contract GMC sy’n cynnwys:

- Yr amodau y mae rhaid i gontractwyr GMC (ymarferwyr cyffredinol) eu bodloni cyn y bydd Bwrdd Iechyd Lleol yn ymrwymo i gontract â nhw;
- Telerau’n ymwneud â hyd y contract a’r GMC i’w darparu;
- Datrys anghydfodau;
- Rhagnodi a gweinyddu meddyginiaethau;
- Amrywio, terfynu a chanslo contractau;
- Yr amodau i’w bodloni gan y rhai sy’n cyflawni gwasanaethau neu sydd wedi’u cyflogi neu eu cymryd ymlaen gan y contractwr;
- Cofrestru cleifion a’u dileu o restrau, cau rhestrau a neilltuo cleifion;
- Cofnodion cleifion, darparu gwybodaeth a hawliau mynediad; a
- Chwynion

## 5. Ymgynghori

5.1 Agorodd ymgynghoriad anffurfiol 4 wythnos ar y prif ddarpariaethau a geir yn Rheoliadau 2023, wedi’i dargedu at randdeiliaid allweddol, ar 3 Ebrill 2023 a daeth i ben ar 30 Ebrill 2023.

5.2 Rhoddwyd y ddogfen ymgynghori ar dudalen Rheoli Practis Cyffredinol gwefan Llywodraeth Cymru hefyd am 4 wythnos i alluogi’r cyhoedd i ymgysylltu â’r ymgynghoriad pe baent yn dymuno.

5.3 Cafwyd wyth ymateb. Yn gyffredinol, croesawyd y newidiadau arfaethedig o ran cydgrynhoi’r gwasanaethau craidd ac egluro’r gwasanaethau y gall cleifion ddisgwyl eu derbyn gan ymarferwyr cyffredinol.

5.4 Gwnaed un diwygiad i Reoliadau drafft 2023 mewn perthynas â phryder ymatebydd o ran Mynediad.

5.5 Mae’r ddogfen ymgynghori anffurfiol ar gael yma –

https://www.llyw.cymru/newidiadau-cynlluniedig-ir-contract-gwasanaethau-meddygol-cyffredinol

5.6 Gellir cael gafael ar y crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad anffurfiol yma –

https://www.llyw.cymru/rheoliadaur-gig-contractau-gwasanaethau-meddygol-cyffredinol-cymru-2023

5.7 Yn ogystal, rhannwyd copi o Reoliadau drafft 2023 â Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol (Cymru) (sef y corff sy’n cynrychioli ymarferwyr cyffredinol) iddynt eu hystyried a rhoi sylwadau arnynt. Gwnaed diwygiadau perthnasol i Reoliadau 2023. Mae Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru yn fodlon â’r Rheoliadau drafft sy’n cael eu gosod yn y Senedd.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal a gwella'r broses o gyflenwi GMC yn effeithiol, gan ddefnyddio profiad y blynyddoedd diwethaf i sicrhau darpariaeth sy'n canolbwyntio ar gleifion, a'i chyflenwi yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus.

Mae'r Contract Unedig yn ganlyniad i 18 mis o waith a wnaed fel rhan o ddull teirochrog gyda Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol (Cymru) – sef y corff sy'n cynrychioli ymarferwyr cyffredinol.

Mae symud gwasanaethau i Wasanaethau Unedig a nodir yn Rheoliadau 2023 yn niwtral o ran cost.

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig ar Reoliadau 2023 ac mae Adran 1 ac 8 i'w gweld yma –

https://www.llyw.cymru/rheoliadaur-gig-contractau-gwasanaethau-meddygol-cyffredinol-cymru-2023-asesiad-effaith-integredig

### 6. Yr Opsiynau

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

6.1 Os na wneir Rheoliadau 2023, ni fydd personau sydd wedi cofrestru â phractisau ymarferwyr cyffredinol yng Nghymru yn elwa ar Wasanaethau Unedig nac yn derbyn gwasanaethau ar sail gyfartal. Byddai Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 yn parhau.

Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau

6.2 Gwneud Rheoliadau 2023 i sicrhau bod y canlyniadau a amlinellir uchod yn cael eu hosgoi a bod personau sydd wedi cofrestru â phractisau ymarferwyr cyffredinol yng Nghymru yn derbyn lefelau uchel o ofal o ansawdd. Dyma'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio.

### 7. Costau a manteision

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

7.1 Bydd personau sydd wedi cofrestru â phractisau ymarferwyr cyffredinol yng Nghymru yn parhau i dderbyn gwasanaethau meddygol fel y maent yn awr o dan Reoliadau 2004.

Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau

7.2 Nid yw gwneud Rheoliadau 2023 yn golygu unrhyw gostau ychwanegol. Mae symud gwasanaethau i Wasanaethau Unedig yn gam niwtral o ran cost.

7.3 Bydd personau sydd wedi cofrestru â phractis ymarferydd cyffredinol yng Nghymru yn elwa drwy dderbyn Gwasanaethau Unedig. Mae’r Contract Unedig yn symleiddio pa wasanaethau y mae pob practis ymarferydd cyffredinol yng Nghymru yn eu darparu, a sut y maent yn dangos tystiolaeth o sicrwydd ynghylch cyflenwi gwasanaethau. Mae’r Contract yn golygu bod y maes ymarfer cyffredinol yn cael ei gysoni â modelau gwasanaeth sy’n datblygu ar gyfer darparu gofal, yn seiliedig ar ethos gofal iechyd darbodus. Ei nod yw ei gwneud yn haws i gleifion a phroffesiynolion gofal iechyd ddeall y cyfrifoldebau dros ddarparu gwasanaethau, lleihau biwrocratiaeth weinyddol, rhyddhau amser ac adnoddau ar gyfer darparu gwasanaethau, a galluogi defnyddio data a thechnoleg i helpu i gynllunio adnoddau a darparu gwasanaethau.

7.4 Mae gan bob dinesydd yr hawl i gael mynediad at wasanaethau meddygol sylfaenol, ac ni fydd hyn yn newid. Ni fydd y ffordd y mae claf yn cofrestru â phractis ymarferydd cyffredinol i gael mynediad at wasanaethau yn newid chwaith. Bydd practisau ymarferwyr cyffredinol yn parhau i fod yn gyfrifol am ddefnyddio’r cyllid a ddarperir drwy’r contract i drefnu’r adnoddau staffio sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau yn unol â’r contract.

7.5 Mae ‘Cymru Iachach’ yn sefydlu dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol, gan amlinellu system ‘Iesol’ sydd â’r nod o gynorthwyo a rhagweld anghenion iechyd, atal salwch a lleihau effeithiau iechyd gwael ac anghydraddoldeb.

7.6 Mae cydnabyddiaeth glir bod gan ofal sylfaenol, fel y pwynt cyswllt cyntaf i’r rhan fwyaf o ddinasyddion sy’n ceisio gwasanaethau iechyd, rôl allweddol wrth sicrhau’r cyfleoedd mwyaf posibl ar gyfer atal a hunanreoli, gan gynnwys ymddygiad afiach sy’n cyfrannu at gyflyrau neu glefydau tymor hir.

7.7 Bydd y dangosyddion clinigol a oedd yn rhan o’r Fframwaith Sicrhau a Gwella Ansawdd, a oedd yn wirfoddol i gontractwyr GMC gymryd rhan ynddo, hefyd yn symud i’r Gwasanaethau Unedig. Mae hyn yn golygu y bydd contractwyr GMC yn rheoli rhai o’r cyflyrau cronig mwyaf cyffredin, er enghraifft asthma a diabetes i gleifion sydd â’r cyflyrau hynny.

7.8 Roedd elfen o’r Fframwaith Sicrhau a Gwella Ansawdd o 1 Ebrill 2022 ymlaen hefyd yn cynnwys yr Ymrwymiad Mynediad i ddangos yn gliriach i’r cyhoedd beth y gallant ei ddisgwyl gan bractisau ymarferwyr cyffredinol o ran mynediad. Bydd y rhan hon o’r Fframwaith yn symud i’r Contract Unedig i ffurfioli’r disgwyliadau a’r gofynion o ran mynediad, ynghyd â thargedau a mesurau cadarn.

7.9 Yn ogystal, er mwyn gwella mynediad i gleifion ymhellach, rhaid i gontractwyr GMC–

- Ateb eu ffonau drwy gydol yr oriau craidd (h.y. 8.00am i 6.30pm) o ddydd Llun i ddydd Gwener oni bai bod cytundeb blaenorol wedi’i roi gan y Bwrdd Iechyd Lleol i ddefnyddio neges ffôn ateb o dan amgylchiadau eithriadol; a

- Sicrhau bod drysau eu prif fangre practis ar agor fel y gall cleifion gael mynediad i’r fangre yn gorfforol rhwng 8.30am a 6.00pm. Bydd hyn hefyd yn atal lleiafrif o bractisau rhag cau am hanner diwrnod.

7.10 Er mwyn cefnogi’r agenda iechyd y cyhoedd, bydd templed “holiadur cleifion newydd” set ddata genedlaethol gofynnol yn cael ei ddefnyddio gan bob practis ac yn cael ei gynnig i gleifion sy’n cofrestru â’r practis. Bydd yr holiadur safonol yn sicrhau proses sgrinio ar gyfer cleifion 16 oed neu hŷn:

- sy’n yfed alcohol ar lefel uwch neu lefel risg uwch
- sy’n ddefnyddwyr cynhyrchion tybaco
- sydd â BMI uchel

7.11 Bydd practisau yn parhau â’u dulliau presennol o atgyfeirio cleifion a nodir fel rhai sy’n wynebu risg at gymorth perthnasol.

7.12 Bydd cyflwyno’r “holiadur cleifion newydd” set ddata genedlaethol gofynnol ar gyfer pob claf newydd yn sicrhau cysondeb o ran casglu gwybodaeth sgrinio iechyd bwysig.

## 8. Asesu’r Gystadleuaeth

8.1 Nid yw gwneud Rheoliadau 2023 yn cael unrhyw effaith ar gystadleurwydd busnesau, elusennau na’r sector gwirfoddol.

## 9. Adolygu ar ôl gweithredu

9.1 Y bwriad yw sicrhau bod contractau GMC yn parhau’n addas i’r diben am y 10 mlynedd nesaf o leiaf, a thrwy hynny barhau i ddarparu’r gwasanaethau presennol i gleifion, a’u gwella. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar y newidiadau hyn mewn trafodaethau cydweithredol helaeth gyda Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru a GIG Cymru. Bydd monitro parhaus fel y nodir yn Rheoliadau 2023 ac, os bydd angen, drwy’r trafodaethau blynyddol arferol rhwng Llywodraeth Cymru, Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol (Cymru) a GIG Cymru, gellid gwneud diwygiadau i Reoliadau 2023 yn y dyfodol.